

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu Cymunedol Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe ar nos Fercher, Tachwedd 14^{eg}, 2018 am 6.30 yh.

Presennol

Cynghorwyr	I Rh. Llewelyn	B. Rees	P.H. Roberts
	R.A. Davies	D. Hopkins	Mrs K.D.L Davies

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr	Mrs S.E. Thomas	Mrs C. Thomas	P.H. Roberts
------------	-----------------	---------------	--------------

411.

Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiad.

412.

Prosiectau ar gyfer 2019-20

a) Dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn nifer o geisiadau ar gyfer prosiectau addas am y flwyddyn ariannol nesaf. Cytunwyd **argymell** i'r Cyngor Llawn bod y prosiectau a restrir isod yn cael eu hystyried fel rhan o'r rhaglen Datblygu Cymunedol ar gyfer 2019 -2020.

1. Darparu matiau blodau gwyllt mewn amrywiol leoliadau – ar ochr heolydd ac yn y parciau.
2. Adeiladu pafin ar un ochr o Heol Aberlash.
3. Hysbysfwrdd llwybr cerdded Calon Cymru.
4. Plannu coed brodorol yn y parciau a ystyrir yn leoliadau addas..
5. Arwyddion ar y priffyrdd i ddynodi bod parciau gerllaw.
6. Arwyddion ym mhob parc i ddangos perchnogaeth.
7. Placiau nawdd yn nodi pwy sydd wedi gwneud y gwaith, a phryd.
8. Arwyddion dim baw ci / cadw cŵn ar dennyn.
9. Llifoleuadau ym mharc Penygroes
10. Gwelliannau yng ngorsaf drenau Llandybïe.

b) Trafodwyd prosiectau yn ymwneud â thwmpathau cyflymder yn y lleoliadau canlynol, ac **argymhellwyd** gofyn i Adran Briffyrdd y Cyngor Sir i asesu'r traffig ym mhob un safle. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cynghorwyr Sir sy'n cynrychioli'r wardiau er mwyn gofyn iddyn nhw i wneud yr ymholiadau cychwynnol.

- a) Stryd y Brenin, Llandybïe
- b) Heol Pantyblodau, Blaenau
- c) Heol Nant y Ci, Saron
- d) Heol y Llew Du

c) Hefyd **argymhellwyd** clustnodi £30,000 ar gyfer cynnal a chadw ac atgyweirio'r parciau.

d) Ystyriwyd cais oddiwrth Gyndeithas Neuadd Les Cwmgwili am gymorth ariannol i helpu gwneud newidiadau strwythurol i'r neuadd. **Argymhellwyd** bod y gymdeithas les yn cyflwyno cynnig llawn, yn cynnwys manylion llawn y costau, y cyllidwyr eraill sydd ynglwm â'r prosiect ac union maint y gefnogaeth y maen nhw'n gofyn amdano oddiwrth y Cyngor, i'w ystyried gan y Cyngor.

413.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.10 yh.